

# Rhyfeddod cariad

*“Ond ffrwyth yr Ysbryd yw cariad, llawenydd, tangnefedd, goddefgarwch, caredigrwydd, daioni, ffyddlondeb, addfwynder, hunanddisgyblaeth.” (adn. 22)*

## Beth am ddarllen Galatiaid 5:16–26 ac yna myfyrio

Ni all neb garu fel mae Duw yn ein caru ond medrwn garu â'n holl fod. Mae'n bywyd, os ydym yn ei fyw yn iawn, yn fywyd o gariad. Mae pob un o ffrwythau'r Ysbryd mewn perthynas â chariad. Cariad yw y cyntaf a chariad yw'r rheswm dros y gweddill. Mae'r gwyрthiau mae Duw yn eu cyflawni ynom ni yn cael eu cyflawni drwy ryfeddod ei gariad. Does dim arall sydd yn gallu ein rhyddhau oddi wrth yr hunangyfiawnder a'r hunanbwysigrwydd sydd yn trigo ynom ac sydd yn wreiddyn i'n pechod, yr ymdrech yma i roi yr hunan yn lle Duw.

Gall nwyd fod yn rym cryf yn ein bywyd, a thrwyddo gallwn gyflawni llawer. Ond, mae nwyd yn gweithio ar ei orau mewn perthynas â chariad. Mae nwyd ohono ei hunan yn gallu ein dallu. Mae cariad *agape* yn gweld y gwendidau, ond yn caru er gwaethaf y gwendidau. Mae nwyd yn gallu bod yn chwantus, tra bod cariad dwyfol yn garedig, yn awyddus i rannu, ac yn ein rhyddhau ni. Gall nwyd droi ar ddim i wylltineb, gan falu y gwrthrych. Ond, nid yw cariad yn ddilywodraeth. Yn hytrach, y mae wastad yn adeiladol.

Yr unig ffordd i feddu Duw yw ffordd cariad. Dim ond y cariad y mae Duw yn medru ei eni ynom trwy gael golwg ar ei gariad ef sydd yn abl i ryddhau ein natur gaeth a'n dwyn i aeddfedrwydd. Dim ond wrth i ni garu yr ydym yn dod yn rhydd. Yn ôl Daniel Rowland, un o arweinwyr y Diwygiad Efengylaidd, ystyr iachawdriaeth yw dysgu oddi wrth yr Arglwydd sut mae caru. Gofynnodd St Theresa o Lisieux: “Sut mae ymgyrraedd â pherffeithrwydd? Ni wyddaf ond sut mae caru, a charu yn unig.” Y twf mwyaf arwyddocaol yn ein bywyd ysbrydol yw twf mewn cariad. Heb gariad, mae pob twf arall fel cancr yn difa ac yn difodi. Os yw cariad ar goll, mae popeth ar goll.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

2 Sam. 13:1–29; Ioan 15:12–13

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut mae cymharu nwyd a chariad?
2. Pam fod nwyd yn methu, ond fod cariad byth yn pallu?

## Gweddi

O Dad, wrth i mi feddwl am ffyrdd yr wyt ti wedi fy ngharu ac wedi estyn ataf ac wedi fy newid, diolchaf. Gweddi'af am adnabod yr un math o gariad tuag at eraill, cariad sydd yn fy newid i ac yn eu newid hwythau. Caniatâ hyn yn enw Iesu. Amen.